# PWYLLGOR CRAFFU’R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 18 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Y Cynghorydd I.A.N. Perry (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake. V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, S. Lloyd-Selby, E. Penn a S.T. Wiliam

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a’r Iaith Gymraeg), B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy), G. Bruce, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd), M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu) a N.J. Wood.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG AR GYFER EITHRIADAU I DERFYN CYFLYMDER DIOFYN 20MYA CYMRU A GWEITHREDU TERFYNAU CYFLYMDER ATEGOL (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID cyfeirio sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio mewn perthynas â'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO) arfaethedig ar gyfer eithriadau i'r adroddiad Terfyn Cyflymder Diofyn 20mya Cymru a Gweithredu Terfynau Cyflymder Ategol i'r Cabinet.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. CAU CYFRIFON 2022/23 (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. CAU CYFRIFON CYFALAF 2022/23 (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

(2) NODI'r cyllidebau cynllun ychwanegol a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(3) NODI'r sefyllfa gryno o'r newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o'u cymeradwyo yn y Cyngor ar 7 Mawrth, 2022 i 31 Mawrth, 2023 fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

(4) NODI'r Pwerau Argyfwng a gymeradwywyd mewn perthynas â'r llithriad a nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2022/23 (CL) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 4 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau cynllun cyflawni blynyddol 2022/23 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.